**PRIFYSGOL FETROPOLITAN CAERDYDD**
**CYFLEUSTERAU & Y GYNHADLEDD TELERAU AC AMODAU CYFFREDINOL LLOGI**

**1. DIFFINIADAU A DEHONGLIADAU**

1.1 Yn y Cytundeb hwn, bydd i'r geiriau a'r ymadroddion canlynol yr ystyron canlynol:

Ystyr "Cytundeb" fydd y Telerau ac Amodau Llogi Cyffredinol hyn, unrhyw Atodlen ac Atodiad a phob Atodlen ac Atodiad a atodir iddo ac y cyfeirir atynt yma ac unrhyw ddogfennau eraill a atodir iddo neu a gyhoeddir ar wahân gyda'r bwriad o fod yn rhan o'r Cytundeb rhwng y Brifysgol a'r Llogwr.
Ystyr "Atodiadau" fydd unrhyw a phob Atodiad a atodir ac y cyfeirir atynt yn y Cytundeb.
Ystyr "Digwyddiad neu Ddigwyddiadau" yw'r gweithgaredd neu'r digwyddiad a archebwyd gan y Llogwr ac y mae'r Telerau ac Amodau Cyffredinol hyn yn berthnasol iddo.
Ystyr "Cyfleusterau" fydd unrhyw a phob un o gyfleusterau'r Brifysgol, p'un a ydynt wedi'u cynnwys yn y cytundeb Llogi ai peidio. Ni fydd defnyddio'r term Cyfleusterau yn ymhlygu unrhyw hawliau i gael mynediad i unrhyw Gyfleusterau na'u defnyddio oni ddiffinnir y rhain o fewn cwmpas y cytundeb llogi.
Ystyr "Ffi/oedd" fydd unrhyw gostau, taliadau neu ffioedd sy'n ddyledus neu'n daladwy gan y Llogwr i'r Brifysgol mewn perthynas â defnyddio Cyfleusterau, darparu llety neu am ddarparu unrhyw Wasanaethau eraill gan y Brifysgol i'r Llogwr yn ogystal â'r TAW.
Ystyr "Llogi" fydd y cyfnod y defnyddir Cyfleusterau, Gwasanaethau a/neu llety'r Brifysgol y cytunwyd arno fel y darperir ar ei gyfer o dan y Cytundeb hwn.
Ystyr "Llogwr" fydd y person, y busnes neu'r cwmni sy'n llogi'r Cyfleusterau, Gwasanaethau a/neu llety'r Brifysgol.
Ystyr "Safleoedd" fydd unrhyw un a phob un o Safleoedd y Brifysgol.
Ystyr "Archeb Gadw/Archebion Cadw" yw archeb gadw/archebion cadw am lety neu ddefnyddio Cyfleusterau yn unol â'r cyd-destun yr ymddangosant ynddo.
Ystyr "Atodlenni" fydd unrhyw Atodlen a phob Atodlen a atodir ac y cyfeirir atynt yn y Cytundeb hwn.
Ystyr "Gwasanaethau" fydd unrhyw wasanaethau a ddarperir gan y Brifysgol fel rhan o logi cyfleusterau'r Brifysgol gan y Llogwr neu elfen hanfodol o wasanaeth.
Ystyr "Telerau ac Amodau" fydd y telerau ac amodau hyn ac unrhyw Atodiad a/neu Atodlen a phob Atodiad a/neu Atodlen fel y'i diffinnir yma.
Ystyr "Prifysgol" fydd Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

**2. CYFFREDINOL**

2.1 Bydd y Brifysgol yn cymryd pob cam rhesymol i gyflawni unrhyw Archeb Gadw a phob Archeb Gadw a darparu'r Cyfleusterau a logwyd yn unol ag unrhyw ddyfynbrisiau a roddir gan y Brifysgol mewn ymateb i'r ymholiad neu'r manylion a roddir gan y Llogwr. Fodd bynnag, ceidw'r Brifysgol yr hawl i ddarparu Cyfleusterau neu Wasanaethau amgen o safon gyfatebol o leiaf heb unrhyw newid yn y gost i'r Llogwr.

2.2 Fel y gall y Brifysgol wneud asesiad llawn o'i rhwymedigaethau i ddarparu'r gwasanaeth, bydd y Llogwr yn rhoi'r holl gyfryw wybodaeth ag sydd ar gael mewn perthynas â'r Llogi i'r Brifysgol. Ni all y Brifysgol dderbyn unrhyw atebolrwydd, beth bynnag y bo, am unrhyw fethiant i ddarparu Gwasanaethau neu Gyfleusterau os bydd y Llogwr yn rhoi gwybodaeth anghyflawn neu wallus.

2.3 Ni fydd y Llogwr yn aseinio unrhyw agwedd ar y Cytundeb hwn nac yn is-osod unrhyw Gyfleusterau, Archebion Cadw na Gwasanaethau a gwmpesir gan y Cytundeb hwn i unrhyw drydydd parti heb ganiatâd ysgrifenedig y Brifysgol ymlaen llaw.

2.4 Er bod y Brifysgol wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y wybodaeth a geir yn ei hysbysebion, ei llyfrynnau a'r tariffau a gyhoeddwyd ganddi yn gywir, ceidw'r hawl i newid unrhyw wasanaeth, cyfleuster neu amwynder, eu cyfnewid neu eu tynnu'n ôl heb rybudd os bydd angen.

2.5 Ceidw'r Brifysgol yr hawl i ddarparu Gwasanaethau a / neu osod Cyfleusterau i sefydliadau ychwanegol eraill yn ystod y cyfnod Llogi a bydd yn rhoi'r cyfryw wybodaeth i'r llogwr os gofynna amdani.

2.6 Os bydd unrhyw gyfarpar neu offer a ddarperir gan y Brifysgol o dan y Cytundeb hwn yn torri, bydd y Brifysgol yn trefnu iddo gael ei atgyweirio cyn gynted ag y bo modd a bydd yn cymryd pob cam rhesymol i ddarparu cyfarpar amgen nes bod y gwaith atgyweirio wedi'i gwblhau.

2.7 Bydd yn rhaid i unrhyw gŵyn sy'n deillio o'r cyfnod Llogi gael ei chyflwyno'n ysgrifenedig a dod i law'r Brifysgol o fewn 3 diwrnod i'r cyfryw gŵyn godi.

2.8 Bydd y ddau barti yn sicrhau wrth gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn eu bod yn cydymffurfio ym mhob ffordd â'r holl ddarpariaethau statudol perthnasol, is-ddeddfau ac unrhyw gyfryw ddeddfiadau eraill gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddeddfwriaeth ynglŷn ag Iechyd a Diogelwch, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Diogelu Plant.

2.9 Mae'r Llogwr yn cytuno i gydymffurfio ym mhob ffordd â phob un o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol y Brifysgol gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Cod Ymarfer ar y Rhyddid i Lefaru a Pholisi a Rheoliadau Parcio Ceir.

**3. NEWIDIADAU I'R GOFYNION ARCHEBU**

3.1 Dylai'r Llogwr roi cymaint o rybudd â phosibl i'r Brifysgol am unrhyw newidiadau i ofynion archebu. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau 4.2 (a chymalau eraill) yma, bydd y Brifysgol yn cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â cheisiadau'r Llogwr, ar yr amod bod y rhain yn cael eu gwneud o fewn y cyfnod a amlinellir uchod.

3.2 Pe bai'r Llogwr yn gwneud cais am unrhyw Wasanaethau neu Gyfleusterau ychwanegol ar ôl i'r archeb gael ei derbyn, bydd y Brifysgol yn cymryd pob cam rhesymol i ddarparu'r Gwasanaethau a'r Cyfleusterau

ychwanegol y gwnaed cais yn eu cylch ac os ydynt ar gael, bydd yn codi'r pris neu'r Ffi a gyhoeddwyd ac sydd mewn grym ar y pryd ar y Llogwr. Ni fydd y Brifysgol yn atebol am unrhyw anallu i ddarparu'r cyfryw Wasanaethau neu gyfleusterau ychwanegol, ac ni fydd y Llogwr yn defnyddio unrhyw gyfryw anallu i ddiddymu'r archeb. Pe bai'r Llogwr yn canslo'r Digwyddiad oherwydd na all y Brifysgol dderbyn y gofyniad cynyddol, bydd polisi canslo'r Brifysgol yn berthnasol i'r canslo.

**4. NIFER Y BOBL FYDD YN BRESENNOL**

4.1 Bydd y Llogwr yn rhoi manylion i'r Brifysgol am nifer y bobl y llogir y Cyfleusterau ar eu cyfer, neu y darperir llety ar eu cyfer yn unol â'r terfynau amser a'r dyddiadau a nodwyd yn Atodlen 1 i'r Cytundeb hwn. Ni fydd nifer o'r fath yn fwy nag unrhyw derfyn y caniateir i'r Brifysgol ei gadw yn ôl y gyfraith.

4.2 Mae'r Llogwr drwy hyn yn cydnabod ac yn derbyn bod sicrhau cydymffurfiaeth y Llogwr â'r amserlen dalu a nodir yn Atodlen 1 yn un o brif amodau'r cytundeb rhwng y Brifysgol a'r Llogwr. Os bydd y Llogwr yn methu â thalu'n llawn y swm a nodir erbyn pob dyddiad yn yr amserlen dalu a nodir yn Atodiad 1, bydd gan y Brifysgol yr hawl i ddiddymu'r archeb trwy roi 30 diwrnod o rybudd i'r Llogwr o ganslo'r Llogi Os cyflwynir rhybudd o ganslo, ni ellir ad-dalu pob taliad a dderbynnir hyd at ddyddiad y canslo, ac ni fydd y Brifysgol yn atebol i'r Llogwr mewn unrhyw ffordd o gwbl am unrhyw gostau y gall y Llogwr eu hysgwyddo o ganlyniad i hynny. canslo.

4.3 Os bydd amgylchiadau eithriadol a chwbl anrhagweladwy yn atal y Llogwr rhag gwneud unrhyw daliad yn unol â'r amserlen dalu, ceidw'r Brifysgol yr hawl i hepgor y terfyn amser talu o dan yr amgylchiadau hynny. Fodd bynnag, os bydd y Brifysgol yn hepgor gofyniad yr amserlen dalu, caiff y Brifysgol osod terfyn amser ar yr hepgoriad a chyflwyno terfyn amser talu diwygiedig. Os bydd y Brifysgol yn hepgor terfyn amser, bydd darpariaethau Cymal 13 yma yn gymwys.

4.4 Os bydd cyfanswm y nifer sy'n bresennol yn fwy na chyfanswm yr archeb, bydd y Llogwr yn atebol i dalu Ffioedd ychwanegol i'r Brifysgol am bob person yn unol â'r Ffioedd y cytunwyd arnynt ar gyfer y nifer a ragwelwyd yn wreiddiol.

4.5 Os bydd cyfanswm y nifer sy'n mynychu yn llai na chyfanswm y nifer a archebir am ba bynnag reswm, bydd y Llogwr serch hynny yn atebol i'r Brifysgol i dalu Ffioedd y pen am y cyfanswm a archebwyd.

4.6 Os bydd cyfanswm y nifer sy'n bresennol yn fwy na'r niferoedd y caniateir i'r Brifysgol ddarparu ar eu cyfer o dan unrhyw drwydded adloniant neu iechyd neu ddiogelwch, yna bydd gan y Brifysgol yr hawl i symud y niferoedd dros ben o'r Cyfleusterau, ac ni fydd yn atebol i'r Llogwr nac unrhyw drydydd parti am unrhyw gostau neu daliadau sy'n codi o'r cyfryw gamau. Rhaid i'r Llogwr ddarparu'r holl gefnogaeth a chymorth sydd ei angen ar y Brifysgol i arfer ei hawliau o dan y cymal hwn, a bydd yn indemnio'r Brifysgol yn erbyn pob hawliad ac unrhyw hawliad a wneir gan unrhyw berson yn erbyn y Brifysgol sy'n deillio o'i harfer o hawliau o'r fath.

5. **TALIADAU A GODIR**

5.1 Bydd y Ffioedd sy'n daladwy gan y Llogwr i'r Brifysgol fel y'u nodir yn y dyfynbris neu'r amcangyfrif o gostau a roddir gan y Brifysgol i'r Llogwr. Bydd unrhyw gyfryw Ffi a phob cyfryw Ffi wedi'i gosod am gyfnod o 60 diwrnod ar ôl dyddiad y dyfynbris neu'r amcangyfrif. Os na fydd dogfennau cytundebol wedi cael eu llofnodi erbyn diwedd y cyfnod hwn o 60 diwrnod, ceidw'r Brifysgol yr hawl i newid y Ffioedd yn y dyfynbris yn unol ag unrhyw strategaeth brisio sydd mewn grym ar y pryd. Bydd prisiau a roddwyd gan y Brifysgol ac a dderbyniwyd gan y Cleient o fewn y cyfnod o 60 diwrnod wedi'u gosod yn bendant am y digwyddiad/au a nodwyd oni chytunir fel arall rhwng y partïon neu onis newidir yn unol ag unrhyw ddarpariaeth arall yn y Cytundeb hwn.

5.2 Dim ond pan fo'r Llogwr wedi sefydlu cyfleusterau credyd ymlaen llaw y bydd cyfleusterau cyfrif ar gael.

5.3 Ceidw'r Brifysgol yr hawl i atal cyfleusterau credyd neu eu tynnu'n ôl ar unrhyw adeg heb rybudd.

5.4 Bydd unrhyw arlwyo ychwanegol neu unrhyw ofynion eraill nad ydynt wedi'u nodi yng nghais y Llogwr y mae'r Brifysgol wedi dyfynnu amdanynt, ar gais ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Llogwr (i'w wneud ddim hwyrach na 7 diwrnod cyn y dyddiad y mae eu hangen) ac i ofynion y Brifysgol codir cytundeb, ac (os cytunir arno gan y Brifysgol) ar gyfraddau'r Brifysgol sy'n gyfredol ar y pryd.

**6. AMSERLEN DALU**

6.1 Bydd blaendal na ellir ei ad-dalu, fel arfer 25% o'r Ffi gyfan, yn ofynnol ar adeg cadarnhau'r archeb gadw. Ni fydd y Brifysgol yn gallu gwarantu'r archeb gadw os na fydd y blaendal fel y'i diffinnir yma yn cael ei dalu yn unol â'r teler hwn.

6.2 Bydd gweddill y symiau sy'n ddyledus gan y Llogwr i'r Brifysgol yn cael eu cyfrifo a'u talu fel a ganlyn:

(i) bydd yn rhaid i ail randaliad sy'n hafal i 25% o'r Ffi gyfan gael ei dalu o leiaf 6 mis cyn dechrau'r digwyddiad.

(ii) bydd yn rhaid i drydydd rhandaliad sy'n hafal i 50% o'r Ffi gyfan gael ei dalu o leiaf 2 fis cyn dechrau'r digwyddiad.

(iii) bydd unrhyw swm a phob swm sy'n weddill yn daladwy o leiaf 30 diwrnod ar ôl diwrnod olaf y digwyddiad.

**7. HYSBYSEBU A'R CYFRYNGAU**

7.1 Ni fydd y Llogwr yn cyhoeddi nac yn darparu unrhyw ddeunyddiau hyrwyddo na nwyddau, rhaglenni, tocynnau nac unrhyw ddogfennaeth arall sy'n ymwneud â'r digwyddiad heb gael caniatâd penodol y Brifysgol ynglŷn ag addasrwydd a derbynioldeb y cyfryw ddeunydd i'r Brifysgol, ni fydd y cyfryw ganiatâd yn cael ei atal yn afresymol. At hynny, ni fydd y Llogwr yn defnyddio enw'r Brifysgol na logo'r Brifysgol ar unrhyw ddeunyddiau cyhoeddusrwydd heb ganiatâd ysgrifenedig penodol y Brifysgol ymlaen llaw.

7.2 Ni fydd y Llogwr yn trefnu i unrhyw unigolion neu sefydliadau o'r cyfryngau fod yn bresennol, na'u gwahodd na rhoi mynediad i unrhyw un o safleoedd neu Gyfleusterau'r Brifysgol iddynt heb ganiatâd penodol y Brifysgol ymlaen llaw.

**8. Y DEFNYDD O'R CYFLEUSTERAU GAN Y LLOGWR**

8.1 Ceidw'r Brifysgol yr hawl i ddiarddel unrhyw berson sy'n ymddwyn mewn modd amhriodol neu afreolus. Ni roddir ad-daliad o dan y cyfryw amgylchiadau.

8.2 Mae'n rhaid i bob ymwelydd ddangos prawf adnabod os bydd unrhyw un o swyddogion y Brifysgol yn gofyn am hynny.

8.3 Mae'r Brifysgol yn gweithredu polisi dim ysmygu ym mhob un o'i hadeiladau a'i mannau allanol. Ni chaniateir ysmygu yn y mannau llety dros nos. Arddangosir hysbysiadau tân ym mhob Safle. Bydd y Llogwr yn sicrhau bod y cynadleddwyr yn ymgyfarwyddo â'r hysbysiadau o gyfarwyddyd ac yn cydymffurfio â'r holl weithdrefnau gwacáu adeiladau os bydd tân. Ni ddylai larymau tân gael eu hanwybyddu o dan unrhyw amgylchiadau.

8.4 Bydd y Llogwr a'r holl bersonau sy'n bresennol yn cydymffurfio â'r holl reoliadau sy'n ymwneud â thrwyddedu ac iechyd a diogelwch a'r holl reoliadau eraill sy'n ymwneud â'r cyfnod Llogi.

8.5 Ni chaniateir anifeiliaid anwes nac anifeiliaid eraill ar safleoedd y Brifysgol ac eithrio cŵn tywys. Pan ganiateir y cyfryw gŵn bydd angen rhybudd rhesymol ymlaen llaw ar y Brifysgol i drefnu llety.

8.6 Bydd Llogwyr yn sicrhau na fydd unrhyw hysbysiadau yn cael eu gosod ar arwynebau heb ganiatâd y Brifysgol ac y bydd pob man yn cael ei adael mewn cyflwr glân a thaclus ar ddiwedd y cyfnod Llogi.

8.7. Bydd y Llogwr yn sicrhau ar bob adeg yn ystod y cyfnod Llogi bod digon o oruchwylwyr ar gyfer nifer y bobl ym mhob lleoliad, lle y bo'n briodol a/neu fel sy'n ofynnol o dan unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol, er mwyn sicrhau bod y Llogwr yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol ac yn goruchwylio'r bobl ym mhob lleoliad yn briodol. Bydd y Llogwr hefyd yn sicrhau bod pob goruchwyliwr wedi cael gwiriad llwyddiannus gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol lle y bo'n briodol. Ni fydd y Brifysgol yn atebol o dan unrhyw amgylchiadau am unrhyw faterion sy'n codi o brinder goruchwylwyr neu ddiffyg goruchwylwyr addas nac am unrhyw un o'u gweithredoedd, eu hesgeulustra na'u hanwaith.

8.7 Ni fydd dodrefn ystafelloedd gwely yn cael eu symud o'r ystafelloedd.

8.9 Bydd unrhyw achos o ymyrryd â chyfarpar diogelwch tân yn arwain at godi tâl cosb am swm nad yw'n llai na £165.

8.10 Ni chaniateir gemau pêl yn ardal y llety nac yn y meysydd parcio.

8.11 Oni chytunir fel arall, pan fo gofyn am lety dros nos bydd y Llogwr yn sicrhau'r canlynol
(i) bydd pob cynadleddwr yn cyrraedd y cyfryw ystafelloedd o 2.00pm ymlaen
(ii) bydd cynadleddwyr yn gadael yr ystafelloedd erbyn 9.00am ar ddiwrnod olaf yr archeb

8.12 Ar adeg gadael caiff yr holl allweddi eu dychwelyd i'r Brifysgol. Codir tâl safonol ar y Llogwr am bob allwedd nas dychwelir.

**9. 9.Y BRIFYSGOL YN DIDDYMU'R ARCHEB**

9.1 Caiff y Brifysgol ddiddymu'r archeb o dan yr amgylchiadau canlynol:

(i) Os bydd y cyfleusterau neu unrhyw rannau ohoni ar gau oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth resymol.

(ii) Os yw'r Llogwr yn fwy na 30 diwrnod mewn ôl-ddyledion gydag unrhyw daliad i'r Brifysgol neu os daw'r Brifysgol yn ymwybodol o unrhyw newid yn sefyllfa ariannol y Llogwr. Pan fo posibilrwydd y gall cyfryw archeb effeithio ar enw da'r Brifysgol.

9.2 O dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn 9.1 (i) neu (ac eithrio pan fo'r Llogwr wedi cam-gynrychioli neu fethu â datgelu natur yr archeb i'r Brifysgol) 9.1 (iii) bydd y Brifysgol yn ad-dalu unrhyw daliadau ymlaen llaw a wnaed ond ni fydd ganddi rwymedigaethau pellach i'r Llogwr.

Os bydd y Brifysgol yn canslo Digwyddiad, mae penderfyniad y Brifysgol yn derfynol ac nid yw'r Brifysgol yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw anghyfleustra neu golled a achosir o ganlyniad i ganslo o'r fath.

**10. Y LLOGWR YN DIDDYMU'R ARCHEB**

10.1 Dylid rhoi gwybod i dîm y gwasanaethau cynadledda am unrhyw ganslo, gohirio neu ganslo rhannol drwy anfon e-bost at conferenceservices@cardiffmet.ac.uk .

Os bydd y Llogwr yn canslo, gohirio neu ganslo'n rhannol, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i hawlio'r canlynol:
(i) Pan wneir cansladau fwy na 6 mis cyn y llogi - 25% o gyfanswm y tâl llogi.
(ii) Pan fydd cansladau'n cael eu canslo cyn pen 2 fis i 6 mis ar ôl eu llogi - 50% o gyfanswm y tâl llogi.
(iii) Pan fo canslo o fewn 2 fis i'r llogi - 100% o gyfanswm y tâl llogi.

**11. ATEBOLRWYDD**

11.1 Bydd y Llogwr yn gyfrifol am ymddygiad priodol staff, asiantau a/neu isgontractwyr y Llogwr ac am ymddygiad personau y mae'n dod â hwy i unrhyw ran o'r Safle yn ystod y cyfnod Llogi a bydd yn indemnio'r Brifysgol rhag unrhyw golled, difrod, anaf, cost a thraul a phob colled, difrod, anaf cost a thraul sut bynnag yr achosir hynny naill ai gan y Llogwr neu unrhyw bersonau eraill fel y'u diffinnir yn y cymal hwn.

11.2 Ni fydd y Brifysgol yn gyfrifol am unrhyw atebolrwydd na chostau o ba fath bynnag gan gynnwys colled anuniongyrchol ganlyniadol neu elw a gollir gan y Llogwr o ganlyniad i'r cyfnod Llogi.

11.3 Ni fydd y Brifysgol yn gyfrifol am unrhyw atebolrwydd na chostau o ba fath bynnag sy'n deillio o wallau neu hepgoriadau mewn gwybodaeth ar ba ffurf bynnag a gyflenwir gan y Llogwr neu ar ba ffurf bynnag a geir yn unol â chyfarwyddyd y Llogwr.

11.4 Heb ragfarnu cyffredinolrwydd Cymal 12.1, ni fydd y Brifysgol yn gyfrifol o dan unrhyw amgylchiadau am fethiant cyflenwad trydan a nwy, gollwng dŵr na gweithred gan Dduw neu ddigwyddiad arall y tu hwnt i reolaeth resymol y Brifysgol a allai beri nad yw'r adeilad ar gael. .

11.5 Ni ellir dwyn y Brifysgol yn atebol nac yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod i eiddo neu eiddo personol y Llogwr nac unrhyw berson neu fusnes sy'n defnyddio'r Cyfleusterau o ganlyniad i'r cyfnod Llogi hwn beth bynnag fo'r achos.

11.6 Ni fydd dim a grybwyllwyd eisoes yn lleihau atebolrwydd y Brifysgol am farwolaeth neu anaf personol lle mae'n deillio o weithred esgeulus brofedig gan y Brifysgol neu un o'i chyflogeion.

**12 FORCE MAJEURE**

12.1 Ni fydd y naill barti na'r llall yn atebol am unrhyw fethiant i ymddwyn yn unol â gofynion yr Amodau hyn pan fo'r cyfryw fethiant o ganlyniad i amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth resymol y parti dan sylw.

12.2 Mae Digwyddiad Force majeure yn golygu gweithred Duw, tân, llifogydd, storm, ffrwydrad neu unrhyw drychineb; neu derfysg, rhyfel, rhyfel cartref, gwrthdaro arfog neu derfysgaeth; neu gydymffurfio ag unrhyw orchymyn, rheol, rheoliad neu gyfarwyddyd llywodraethol sy'n rhwymo'r Brifysgol neu'r Llogwr neu ddifrod maleisus, neu halogiad niwclear, cemegol neu fiolegol; neu unrhyw ddigwyddiad neu ddigwyddiadau y tu hwnt i reolaeth resymol y naill barti neu'r llall ac mewn perthynas gyda'r Parti perthnasol:

(1) ni allai fod wedi rhagweld a darparu ar gyfer digwyddiad o'r fath a
(2) heb gymryd y risg o dan unrhyw ddarpariaeth yn y Cytundeb hwn

sy'n peri yn uniongyrchol i'r Parti perthnasol fethu â chydymffurfio â'i holl rwymedigaethau neu ran berthnasol o'i rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn.

**13. DARPARIAETHAU COVID-19**

13.1 Mae darpariaethau'r cymal hwn yn berthnasol mewn perthynas â'r pandemig Covid-19 cyfredol (gan gynnwys unrhyw ddigwyddiad neu bigau yn y dyfodol pan fydd y clefyd yn digwydd) a / neu mewn perthynas ag unrhyw bandemig neu argyfwng iechyd cyhoeddus arall yn y dyfodol. Nid ydynt yn berthnasol i unrhyw sefyllfa arall nad yw'n dod o dan y Canllawiau (fel y'i diffinnir yng nghymal 13.2).

13.2 Bydd y Brifysgol yn gweithredu yn unol â'r deddfau, rheolau, rheoliadau, cyngor a chanllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru a / neu unrhyw gorff statudol neu gynghori perthnasol arall ("y Canllawiau").

13.3. Rhaid i'r Llogwr weithredu yn unol â'r Canllawiau

13.4 Rhaid i'r Llogwr gadw at yr holl reolau, rheoliadau a chanllawiau a gyhoeddir gan y Brifysgol i weithredu a / neu sicrhau cydymffurfiad â'r Canllawiau a chydweithredu'n llawn â'r Brifysgol ynghylch ei weithredu a'i orfodi'r Canllawiau.

13.5 Rhaid i'r Llogwr neu unrhyw un o'r cynrychiolwyr sy'n mynychu adeilad y Brifysgol, hysbysu'r Tîm Gwasanaethau Cynhadledd neu'r Dderbyn Campws ar unwaith os ydynt yn credu eu bod yn dioddef o unrhyw symptomau Covid - 19 p'un a ydynt wedi cael diagnosis wedi'i gadarnhau ai peidio. Mae'r rhwymedigaeth hon i hysbysu hefyd yn ymwneud ag unrhyw symptomau neu haint arall sy'n ddarostyngedig i'r Canllawiau.

13.6 Os yw'r Brifysgol o'r farn ei bod yn rhesymol gwneud hynny, gall y Brifysgol ei gwneud yn ofynnol i'r Llogwr symud i Eiddo arall (gan gynnwys er mwyn osgoi amheuaeth, i eiddo sy'n eiddo i drydydd parti ac sy'n cael ei reoli ganddo).

13.7 Gall y Brifysgol derfynu'r Cytundeb hwn ar unrhyw adeg trwy roi rhybudd ysgrifenedig rhesymol i'r Llogwr. Bydd y Brifysgol (ac eithrio yn achos argyfwng) yn rhoi dim llai na 48 awr o rybudd ysgrifenedig i'r Llogwr.

13.8. Gall y Brifysgol gyhoeddi rheolau a rheoliadau penodol ynghylch defnydd y Llogwr o'r Cyfleusterau a darparu'r Gwasanaethau. Bydd y Brifysgol yn gwneud hynny (gan weithredu'n rhesymol ac yn ôl ei disgresiwn ei hun) lle bo angen gweithredu'r Canllawiau neu sicrhau cydymffurfiad â'r Canllawiau. Rhaid i'r Llogwr gydymffurfio â'r rheolau a'r rheoliadau hyn a chydweithredu â'r Brifysgol.

13.9. Ni fydd methiant neu esgeulustod ar ran y brifysgol na'i chynrychiolwyr i orfodi unrhyw un o delerau ac amodau'r cytundeb hwn yn cael ei ystyried yn hepgoriad oni nodir yn benodol ei fod yn hepgoriad mewn ysgrifen gan y brifysgol. Ni ddylid dehongli hepgoriad gan y Brifysgol ar un achlysur yn awtomatig fel pe bai'n caniatáu hawlildiad ar unrhyw adeg yn y dyfodol.

**14. HEPGORIADAU**

14.1 Nid ystyrir bod unrhyw fethiant neu esgeulustod ar ran y Brifysgol neu ei chynrychiolwyr i orfodi unrhyw un o delerau ac amodau'r Cytundeb hwn yn hepgoriad oni nodir yn benodol ei fod yn hepgoriad yn ysgrifenedig gan y Brifysgol. Nid ystyrir yn awtomatig bod hepgoriad gan y Brifysgol ar un achlysur yn golygu y caniateir hepgoriad ar unrhyw adeg yn y dyfodol.

**15. ANORFODADWYEDD**

15.1 Os tybir bod unrhyw un o ddarpariaethau'r amodau yn annilys neu'n anorfod yn gyfan gwbl neu'n rhannol o dan unrhyw reol, cyfraith neu ddeddfwriaeth, ni fydd yn weithredol ond nid effeithir ar ddilysrwydd yr amodau eraill na gweddill y darpariaethau dan sylw.

**16. HAWLIAU TRYDYDD PARTI**

16.1 Oni ddarperir yn benodol yn y Cytundeb Llogi Cyfleusterau hwn, ni fydd y Cytundeb hwn yn creu unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999 ac ni fydd yn orfodadwy gan unrhyw barti arall ac eithrio'r Llogwr a'r Brifysgol.

**16. Y GYFRAITH SY'N RHEOLI**

16.1 Bydd yr Amodau hyn ac unrhyw fusnes a phob busnes a gynhelir rhwng y Brifysgol a'r Llogwr yn cael eu rheoli a'u dehongli yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr.